**Crynodeb o Argymhellion Strategaeth Farchnata CAChC**

Mae argymhellion Adroddiad Marchnata CAChC sydd wedi eu crynhoi isod, wedi'u rhestru gan dîm y prosiect yn nhermau dichonolrwydd, effaith a blaenoriaeth (o uchel i isel). Credwn fod y set gyntaf o argymhellion yn ymarferol (o leiaf yn rhannol) yn y tymor byr:

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol Genedlaethol | Cynyddu **amlygrwydd** a **chysondeb** brand/hanes archifau yng Nghymru. | • CAChC i ddarparu **adnoddau cyfryngau cymdeithasol i'w defnyddio** gan wasanaethau'r aelodau, yn cynnwys **templedi** i wahodd cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr mewn archifau, **canllawiau sut i..** ar gyfer llwyfannau ee TikTok, **canllawiau** ar briodoli delweddau ac ati.<br>• **Ffurflen a chanllawiau** ar gyfer cyflwyno **storïau i'w cyhoeddi** ar wefan a blog CAChC. |
| 4.4 | Banc o Astudiaethau Achos a Llyfrgell Cynnwys a Rennir | Arddangos cynnyrch a **mynd ag archifau at bobl** i ehangu ymgysylltu. | • Adeiladu banc o astudiaethau achos CAChC, sy'n cynnwys **storïau byr, gafaelgar** (prosiectau, partneriaethau, darganfyddiadau) wedi eu hadrodd o **bersbectif y defnyddiwr/gymuned** y gellir pori drwyddynt .<br>• **Storfa o adnoddau** ar gyfer gwasanaethau'r aelodau, yn cynnwys **rhestrau gwirio a banc syniadau** ar gyfer cyflwyno digwyddiadau allgymorth, ynghyd â **llyfrgell cynnwys a rennir** sy'n cynnwys lluniau o ansawdd uchel a ffotograffau o weithgareddau archif i leihau dyblygu, a gwella cysondeb.<br>• Ychwanegu **arddangosfa bwrpasol ar-lein** ar gyfer cynnyrch creadigol/cymunedol (celf, ffilmiau, cyhoeddiadau, sain, hanes cymunedau) i ddangos yr hyn y gellir ei wireddu drwy ymgysylltu ag archifau. |
| 1.2 | Canllaw 1-2-3: Sut i Ddefnyddio Archif yng Nghymru | **Lleihau rhwystrau** a **magu hyder** i ddefnyddio archifau. | • CAChC a gwasanaethau'r aelodau i gyd-gynllunio **canllaw dwyieithog byr, cyfeillgar** (print + digidol) i egluro archifau mewn 3 cham: Dod o hyd i'ch cwestiwn, Archwilio'r catalog, Cysylltu â ni.<br>• **Templed craidd** y gall pob gwasanaeth ei gymhwyso'n **lleol** (dolen i gysylltu, archebu, catalog) wrth fynd ati i gadw'r un strwythur sector cyfan.<br>• I'w ddefnyddio fel **'arf rheng flaen i fagu hyder'** i'r rheini sy'n ymweld am y tro cyntaf. |
| 1.1 | Gwefan Archif Safonol | **Lleihau rhwystrau** a **magu hyder** i | • CAChC a gwasanaethau aelodau i gyd-ddylunio **'gwefan archif safonol'** sector cyfan (rhestr wirio cynnwys, nid ailgynllunio), gan gynnwys **trosolwg o gasgliadau**, camau clir o ran **'Sut i ymweld'**, gwybodaeth am **fynediad**, **dolenni i gatalogau**, a **datganiad croesawu** penodol.<br>• Cefnogi gwasanaethau'r aelodau i gynhyrchu fideo estyn croeso **2 funud o hyd** (beth i'w |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio archifau. | ddisgwyl, sut mae'r ystafell ddarllen yn gweithio) a **thaith rithiol** i leihau pryder a chefnogi anghenion o ran mynediad.<br>• Datblygu a rhannu **geirfa gyffredin** fel bod y derminoleg yn fwy cyson ar draws Cymru, i ymgyfarwyddo, a magu hyder ar draws y gwasanaethau. |
| 3.1 | Sesiynau Pori yn ôl Themâu | Creu **llwybrau mynediad croesawgar** a phartneriaethau ar gyfer **cynulleidfaoedd newydd**. | • Cyflwyno **sesiynau pori yn ôl themâu**, heb bwysau, wedi eu hysbrydoli gan Glwb Lloffa Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd ar gyfer grwpiau creadigol/cymunedol/ busnes: deunydd wedi'i guradu, heb agenda ymchwil, trin a thrafod i archwilio.<br>• Ei ddefnyddio fel **profiad corfforol cyntaf** sy'n dileu braw ac un sy'n creu cysylltiadau personol â staff; gyda'r nod o hadu ymweliadau a phrosiectau nes ymlaen.<br>• CAChC i baratoi **canllaw syml** ar gynnal sesiynau (gwahodd grwpiau, dewis deunydd, camau dilynol, trosi i ymgysylltu dyfnach). |
| 4.3 | Mynd ag archifau ar daith: Rhaglen Arddangosfa Deithiol ac Arddangosfeydd Naid | Arddangos cynnyrch a **mynd ag archifau at y bobl** i gynyddu ymgysylltu. | • Treialu rhaglen genedlaethol ar gyfer **arddangosfeydd teithiol, hawdd eu gosod** mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, canolfannau siopa, ysgolion a mannau cyhoeddus: **cwrdd â phobl ble bynnag y maen nhw**.<br>• Pob taith / arddangosfa naid **i gynnwys y canllaw 1-2-3** a **gwahoddiad penodol i ymweld** â'r archif sy'n gartref i'r darnau gwreiddiol.<br>• Nod tymor hwy o archwilio **fformatau ymgolli / profiadol** ee Realiti Estynedig / Realiti Rhithwir (AR/VR). |
| 2.3 | 'Ceidwaid y Storïau: Cyfres Ffilmiau yn Portreadu Staff | Cynyddu **amlygrwydd** a **chysondeb** brand/hanes archifau yng Nghymru. | • Comisiynu **portreadau ar ffurf rhaglen ddogfen** fer (3–5 munud) yn cyflwyno staff yr archif a'u hoff gasgliadau. Pwysleisio pobl yn adrodd storïau a **dathlu ased fwyaf y sector: ei staff**.<br>• Dosbarthu drwy YouTube gyda phytiau byr ar gyfer Riliau/TikTok, gan adeiladu **llyfrgell sy'n tyfu** ac yn cynrychioli ehangder y gwasanaeth archifau yng Nghymru dros amser.<br>• Cynhyrchu **2–3 cynllun peilot** ym Mlwyddyn 1 gyda chyfle i CAChC wneud cais am gyllid pellach i ymestyn y cynllun. |
| 3.2 | Model Partneriaeth y Diwydiannau Creadigol + Galwad Agored | Creu **llwybrau mynediad croesawgar** a phartneriaethau ar gyfer **cynulleidfaoedd newydd**. | • CAChC, gwasanaethau'r aelodau a phobl greadigol i gyd-ddylunio **Fframwaith Partneriaeth Greadigol** (dod o hyd i bartneriaid, strwythuro'r cydweithio, talu, marchnata, gwerthuso) fel nad yw'r gwaith yn dibynnu ar berthnasoedd anffurfiol.<br>• Nod tymor hwy i CAChC geisio cyllid ar gyfer galwad agored yn flynyddol yn cynnig g**rantiau datblygu a mynediad i'r archifau**; i gyd-fynd â Chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer gwaith sy'n seiliedig ar gasgliadau, a dolenni i gyfeirio atynt. |

Argymhellion sy'n gofyn am fwy o amser a buddsoddiad (ar gyfer CAChC a gwasanaethau'r aelodau):

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.5 | Y Ceidwad Digidol: Ap Ymchwilio Archifau | **Lleihau rhwystrau** a **magu hyder** i ddefnyddio archifau. | • Creu **arf llwybr ymchwil personol gydag elfen o gêm**: mae defnyddwyr yn ateb ychydig o gwestiynau ac yn cael prosiect wedi'i deilwra gyda chanllawiau cam wrth gam, cerrig milltir cynnydd, a chofnod ymchwil.<br>• Gellir ei **dreialu** fel **ap gwe** syml gyda nifer cyfyngedig o lwybrau a 2–3 archif sy'n bartner.<br>• Tymor hwy, ehangu drwy **integreiddio catalogau** ar draws y 23 gwasanaeth: tasg sylweddol o ran seilwaith. |
| 3.4 | Cymrodoriaethau a Chyfnodau Preswyl yn yr Archifau | Creu **llwybrau mynediad croesawgar** a phartneriaethau ar gyfer **cynulleidfaoedd newydd.** | • Sefydlu **Rhaglen gymrodoriaeth CAChC** yn cynnig amser am dâl, wedi ei warchod (3–6 mis) i artistiaid/ymchwilwyr weithio gyda chasgliadau heb allbynnau a bennwyd ymlaen llaw.<br>• Defnyddio cymrodoriaethau i **ddehongli casgliadau o'r newydd** a chreu **cynnyrch (celf, arddangosfeydd, cyhoeddiadau, perfformiadau)** sy'n fodd o eirioli yn y tymor hir a chynyddu cynulleidfaoedd.<br>• Datblygu **templed o friff cymrodoriaeth** + ceisiadau am gyllid i gefnogi ceisiadau i gyllidwyr; archifau i gynnal cymrodorion yn lleol. |
| 3.3 | Model Partneriaeth Arloesol | Creu **llwybrau mynediad croesawgar** a phartneriaethau ar gyfer **cynulleidfaoedd newydd.** | • Creu cynnig strwythuredig ar gyfer sefydliadau creadigol/cyfryngau/masnachol sy'n rhoi lle i **archifau fel mewnbwn Ymchwil a Datblygu** ar ddechrau prosiectau (briffio + hwyluso chwilota + opsiynau i ymchwilio'n ddyfnach).<br>• Amnewid dibyniaeth ar berthynas gyda **llwybr ffurfiol**, wedi'i hyrwyddo trwy rwydweithiau creadigol/cyfryngau a busnes.<br>• Darparu **hyfforddiant** i staff yr archif i fframio casgliadau yn yr **iaith arloesi/Ymchwil a Datblygu** a gweithio'n hyderus gyda phartneriaid masnachol. |
| 2.4 | Partneriaeth Cyfryngau: Datgelu Archifau Cymru | Cynyddu **amlygrwydd** a **chysondeb** brand/hanes Archifau yng Nghymru. | • Mynd ar drywydd **partneriaeth darlledu/cynnwys ffurfiol** (ee BBC Cymru neu S4C) gydag uchelgais am **elfen ddogfennol** yn dangos archifau 'o'r tu mewn' (adrodd straeon dan arweiniad archifau gydag apêl dorfol).<br>• Creu **llif storïau**: storïau sy'n deilwng o fod ar y cyfryngau; CAChC yn eu crynhoi fel pecynnau i'w rhyddhau i'r cyfryngau a gwerthu'r cysyniad i safleoedd yng Nghymru/DU.<br>• Dod o hyd i **lefarwyr y sector a'u cefnogi** fel bod arbenigedd staff yn dod yn ased fynych o ran y cyfryngau, ac yn gyhoeddus. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Y Cerdyn Gwyllt: 'Rhowch brosiect i mi' | **Lleihau rhwystrau** a **magu hyder** i ddefnyddio archifau. | • Lansio **ffurflen ar-lein a gynhelir gan CAChC** sy'n canfod diddordebau/lleoliad/amser sydd ar gael, a'i gyfeirio at yr archif berthnasol i gael ymateb personol gyda **phrosiect ymchwil pwrpasol**. Byddai'n gofyn am amser sylweddol gan staff.<br>• Cynllunio Cam 2 yn y dyfodol lle byddai'r **Cerdyn Gwyllt yn integreiddio â'r ceidwad digidol (1.5)**, defnyddio AI i lywio chwilfrydedd mewn prosiect cyn ei drosglwyddo i staff. |
| 1.4 | Ystafell Ddianc Archif yn y Cartref | **Lleihau rhwystrau** a **magu hyder** i ddefnyddio archifau. | • Creu **pos mewn arddull y gellir tanysgrifio iddo,** gan ddefnyddio deunyddiau archif go iawn, o ansawdd uchel wedi ei argraffu, a mwy o gamau mewn catalog ar-lein i ddatrys cliwiau (sgiliau archifau dilys mewn arddull difyr).<br>• Ei ddefnyddio i gyrraedd pobl sy'n chwilfrydig ond nad ydynt yn barod/yn gallu ymweld (pellter, symudedd, pryder), a **chreu pont i ymweliad go iawn** (cam olaf yn eu gwahodd i weld y gwreiddiol).<br>• Datblygu **2-3 rhifyn CAChC** yn gyntaf, yna cyhoeddi 'pecyn cymorth' **'Ystafell Ddianc' fel enghraifft** i wasanaethau greu **fersiynau lleol**; eu gwerthu i adfer costau gydag opsiynau ail-fuddsoddi/cymhorthdal ar gyfer ysgolion/grwpiau. |
| 4.1 | Cylchgrawn Chwarterol CAChC | Arddangos cynnyrch a **mynd ag archifau at y bobl** i gynyddu ymgysylltu. | • Lansio **cylchgrawn chwarterol dwyieithog** uchel ei ansawdd (print + digidol) yn dangos casgliadau, darganfyddiadau, prosiectau, a storïau defnyddwyr amrywiol ledled Cymru.<br>• Defnyddio **model golygyddol sy'n diogelu amser staff**: golygydd yn cyfweld y staff ac yn ysgrifennu/comisiynu copi fel bod gwasanaethau yn cyfrannu trwy sgyrsiau, nid tasgau ysgrifennu ychwanegol.<br>• Dosbarthu drwy **sianeli CAChC a lleoliadau sy'n bartneriaid** â **thanysgrifiadau dewisol** i adeiladu cynulleidfa barhaus. |
| 4.2 | Cylchgrawn Hanes i Blant | Arddangos cynnyrch a **mynd ag archifau at y bobl** i gynyddu ymgysylltu. | • Datblygu **cylchgrawn tanysgrifio dwyieithog** ar gyfer **7-12 oed** gan ddod â hanes Cymru yn fyw drwy storïau, posau ac atgynhyrchu deunydd go iawn o'r archifau, ynghyd â gwahoddiadau i archifau lleol.<br>• Mynd i'r afael â rhwystrau i ysgolion drwy **gyrraedd plant yn eu cartref/yn yr ystafelloedd dosbarth** er mwyn cyfarwyddo a magu hyder yn gynnar.<br>• Meithrin **partneriaeth cyhoeddi/nawdd**; datblygu **gydag athrawon fel ei fod yn gweddu i'r cwricwlwm**; mynd ar drywydd cyllid trwy lwybrau addysg/diwylliant. |

Bydd yr argymhelliad isod sy'n ymwneud â Lansio Brand CAChC yn cael ei flaenoriaethu, a hynny’n rhan o weithgareddau'r prosiect yn yr hydref. Bydd tîm y prosiect yn rhannu mwy o wybodaeth am y lansiad hwn maes o law:

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Lansio Brand CAChC | Cynyddu **amlygrwydd** a **chysondeb** brand/hanes Archifau yng Nghymru. | • CAChC i ail-lansio **brand Archifau Cymru** a **gwefan / adnoddau newydd**, i feithrin cyhoeddusrwydd sector cyfan. |